CWRICWLWM I GYMRU: CANLLAWIAU ATEGOL ANSTATUDOL I YSGOLION CATHOLIG

Cynnwys

1. Cyflwyniad 2

2. Cenhadaeth Ysgol Gatholig 2

3. Datblygu gweledigaeth Gatholig unigryw ar gyfer cynllunio cwricwlwm .....

4. Eich cynllun cwricwlwm 3

4.1 Meysydd Dysgu a Phrofiad (Meysydd) .....

4.2 Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) 4

4.3 Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) .....

4.5 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) 6

1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad ychwanegol anstatudol i ysgolion Catholig ar ddefnyddio'r Cwricwlwm i Gymru i gynllunio cwricwlwm sy'n adlewyrchu eu ffydd a'u gwerthoedd Catholig. Mae'n datblygu ymhellach ar ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru, gan ddarparu cefnogaeth o fewn cyd-destun i ysgolion Catholig. Ni fwriedir dyblygu na bod yn wahanol mewn egwyddor i'r canllawiau hynny.

Bydd penaethiaid, aelodau o gorff llywodraethu ysgol, staff, rhieni a chlerigwyr yn gweld y ddogfen hon yn adnodd defnyddiol wrth fynd ati i gynllunio'r cwricwlwm. Gall y ddogfen hefyd fod o wasanaeth i'r gymuned ehangach drwy egluro hunaniaeth ac ethos ysgolion Catholig.

Mae ymarferwyr o ysgolion Catholig wedi bod yn rhan weithredol o'r gwaith o ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru ar y cyd yn rhinwedd eu rôl fel Ysgolion Arloesi ac Ysgolion Braenaru ac fel cyfranwyr i ddatblygiad canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion a'r Cod a'r canllawiau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh). Datblygwyd y canllawiau hyn gan ymarferwyr yn y sector cynradd ac uwchradd sy'n cynrychioli'r tair esgobaeth Gatholig yng Nghymru. Fe'u cefnogwyd yn eu gwaith gan y swyddogion esgobaethol, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig a gyda chyngor gan swyddogion Llywodraeth Cymru.

2. Cenhadaeth Ysgol Gatholig

Mae addysg yn ganolog i genhadaeth yr Eglwys Gatholig. Nod addysg yr Eglwys Gatholig yw cynnig profiad o fywyd i ddysgwyr mewn cymuned groesawgar a fydd yn eu helpu i dyfu i'w llawn botensial dynol, gan dalu sylw i'r person cyfan, a'u cefnogi i ddatblygu eu doniau corfforol, moesol a deallusol.[1]

Ers dros 150 o flynyddoedd, nod yr Eglwys fu darparu lle mewn ysgol Gatholig i bob dysgwr Catholig. Mae'r gymuned Gatholig yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol yn ei darpariaeth addysg.

Mae'r pwyslais y mae'r Cwricwlwm i Gymru yn ei roi ar addysg gyfannol sy'n seiliedig ar bwrpas yn cysylltu'n dda â'r ymrwymiad y mae'r Eglwys yn ei roi ar gefnogi addysg dysgwyr, er mwyn iddynt gyfeirio eu rhodd o fywyd tuag at Grist a lles cyffredin.

3. Datblygu gweledigaeth Gatholig unigryw wrth gynllunio cwricwlwm

Gofynnodd Pab Benedict XVI gwestiwn i bobl ifanc: ***Pa fath o berson ydych chi eisiau bod?*** Ymddengys fod y Cwricwlwm i Gymru, trwy gyfrwng y pedwar diben, yn gofyn cwestiwn tebyg, ac yn rhoi atebion drwy gyfrwng y datganiadau y ***byddai ein pobl ifanc i gyd...*** Rhaid i ysgolion gynllunio, mabwysiadu a gweithredu cwricwlwm sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu yn y modd a ddisgrifir yn y pedwar diben.

Nod ysgolion Catholig yw meithrin rhinweddau Cristnogol (cryfderau o ran cymeriad) a datblygu gwerthoedd personol, sydd wedi'u gwreiddio yn Efengyl Crist, a'u mynegi yn nysgeidiaeth yr Eglwys Gatholig. Gall meithrin cryfderau o ran cymeriad fel hyn drwy addysg rhinweddau gynorthwyo ysgolion Catholig i wireddu'r pedwar diben.

Mae'r Eglwys Gatholig yn diffinio rhinwedd fel *natur gyson a chadarn i wneud daioni. Mae'n caniatáu i'r unigolyn nid yn unig i wneud gweithredoedd da ond i roi'r gorau ohonyn nhw eu hunain*. Mae'r traddodiad Catholig yn rhestru saith rhinwedd foesol hanfodol, a phum rhinwedd ddeallusol allweddol, sydd gyda'i gilydd yn gwneud unigolyn yn *dda am fod yn ddynol*. Mae'r Rhinweddau Deallusol wedi eu trefnu i annog defnydd da o ddeallusrwydd unigolyn, mae'r Rhinweddau Moesol yn

[1] Christ at the Centre: Why does the Church provide Catholic Schools, by Marcus Stock, (Catholic Truth Society, 2012).

gwneud i unigolyn arfer ei ewyllys rydd mewn ffyrdd da yn yr ystyr foesol. Rhennir y saith o Rinweddau Moesol ymhellach yn Brif Rinweddau a Rhinweddau Diwinyddol:[2]

Rhinweddau Moesol:

- Prif Rinweddau: doethineb, cymedroldeb, cyfiawnder a gwroldeb.
- Rhinweddau diwinyddol: ffydd, gobaith a chariad.

Rhinweddau deallusol:

dealltwriaeth, pwyll, doethineb ymarferol, gwyddoniaeth a chelf.

4.Eich cynllun cwricwlwm

Mae corff llywodraethol ysgol Gatholig a gynhelir yn gyfrifol am bolisïau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm cyfan, gan gynnwys addysg grefyddol. Mae hyn yn sicrhau bod cwricwlwm yr ysgol, gan gynnwys y meysydd dysgu a phrofiad, yn gweithio i hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol y dysgwyr. Mae gan lywodraethwyr sefydledig gyfrifoldeb arbennig am y cwricwlwm addysg grefyddol ac mae dyletswydd arnynt i sicrhau ei fod yn cael ei ddysgu yn unol â dysgeidiaeth, athrawiaethau, disgyblaeth a normau'r Eglwys Gatholig.

Rhaid i ysgolion fabwysiadu eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu a chyhoeddi crynodeb ohono. Mae'n rhaid iddyn nhw sicrhau bod y cwricwlwm mabwysiedig yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n:

- galluogi datblygiad y **pedwar diben;**
- sicrhau cynnydd priodol i bob dysgwr, sy'n cael ei lywio gan **egwyddorion cynnydd** o dan bob Maes;
- addas ar gyfer oedran, gallu a dawn pob dysgwr;
- ystyried anghenion dysgu ychwanegol pob dysgwr (os o gwbl);
- sicrhau dysgu ac addysgu eang a chytbwys i bob dysgwr

I bob dysgwr o'r dosbarth derbyn hyd at a chan gynnwys blwyddyn 9, rhaid gweithredu'r cwricwlwm mewn modd lle mae'r dysgu a'r addysgu:

- yn cwmpasu'r chwe Maes a'r holl elfennau gorfodol
- o ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, yn addas ar gyfer cyfnod datblygu'r dysgwr
- o ran Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ac eithrio mewn perthynas â dysgwyr dosbarth derbyn (y dysgwyr hynny sy'n iau nag oedran ysgol gorfodol, fel arfer rhwng 3 a 5 oed), yn cyfateb i ofynion cynllun y cwricwlwm. Dylai plant 3 i 5 oed barhau i dderbyn addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol
- yn datblygu'r **sgiliau trawsgwricwlaidd** gorfodol.

I bob dysgwr ym mlynyddoedd 10 ac 11 mae'n rhaid gweithredu'r cwricwlwm mewn modd lle mae'r dysgu a'r addysgu:

- yn sicrhau dysgu ac addysgu ym mhob Maes
- o ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, yn addas ar gyfer cyfnod datblygu'r dysgwr
- o ran Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cyfateb i ofynion cynllun y cwricwlwm;

[2] Formation in Virtues: Educating the Whole Person, (Department for Education and Formation, Bishops' Conference of England and Wales, 2020).

yn datblygu'r **sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol**[3].

4.1 Meysydd Dysgu a Phrofiad (Meysydd)

Y chwe Maes yng *Nghanllawiau Cwricwlwm i Gymru* yw'r fframwaith ar gyfer cynllun ein cwricwlwm. Mae pum egwyddor o gynnydd yn sail i gynnydd ar draws pob Maes:

- Cynyddu effeithiolrwydd
- Cynyddu ehangder a gwybodaeth
- Dyfnhau dealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau o fewn y Meysydd
- Mireinio a chynnydd mewn soffistigedigrwydd wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau
- Gwneud cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd [4]

Dylai ymateb ysgol i'r cwricwlwm adlewyrchu gwerthoedd ac ethos yr ysgol. Bydd ysgolion Catholig yn cael eu cefnogi a'u hwyluso i wneud hyn drwy raglen barhaus o ddysgu a thrafodaethau proffesiynol. Wrth ddatblygu cyfleoedd ar gyfer dysgu a phrofiad yn y chwe Maes, dylai ysgolion Catholig adlewyrchu gwerthoedd sydd wedi'u gwreiddio yn Efengylau Crist ac addysg rhinweddau (gweler 3 uchod). Yn wir, bydd gwybodaeth yng nghyd-destun ffydd yn troi'n ddoethineb a gweledigaeth ar gyfer bywyd. Bydd yr ymgais i blethu rheswm a ffydd, a'i roi wrth galon pynciau unigol, yn creu undod, mynegiant a chydlyniant, gan gyflwyno drwy'r hyn a ddysgir yn yr ysgol weledigaeth Gristnogol o'r byd, o fywyd, o ddiwylliant ac o hanes.[5]

4.2 Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)

Yn y Cwricwlwm newydd i Gymru mae 'Crefydd, gwerthoedd a moeseg' yn ofyniad statudol i bob dysgwr o 3 i 16 oed ac nid oes hawl i dynnu'n ôl o CGM. Cyflwynir fesul cam yr hawl i dynnu'n ôl o CGM gan ddilyn yr amserlen weithredu ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. [6] Mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir gyda chymeriad crefyddol, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwricwlwm wneud darpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu mewn perthynas â CGM sy'n cyd-fynd â dogfen ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau'r Eglwys Gatholig.

Mae gofyniad ychwanegol sy'n berthnasol dim ond os yw'r ddarpariaeth a ddisgrifir uchod wedi'i chynllunio heb roi sylw i'r maes llafur y cytunwyd arno. Yn yr achos hwn, rhaid i gwricwlwm yr ysgol hefyd gynnwys darpariaeth ar gyfer addysg CGM sydd wedi'i chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur y cytunwyd arno. Yn yr achos hwn, gall rhieni disgybl wneud cais i'w plentyn gael y ddarpariaeth

---

[3] Cwricwlwm i Gymru- Crynodeb o ddeddfwriaeth, Llywodraeth Cymru, Hwb Cymru https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/crynodeb-o-r-ddeddfwriaeth

[4] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/datblygu-gweledigaeth-ar-gyfer-cynllunio-cwricwlwm

[5] The Catholic School on the Threshold of the Third Millennium (Congregation for Catholic Education, 1999).

[6] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-i-gymru-y-daith-i-weithredu-r-cwricwlwm/

ychwanegol hon sydd wedi'i chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur y cytunwyd arno. Os gwneir cais o'r math hwn, rhaid cydymffurfio ag ef.[7]

Yn ddelfrydol, felly, dylai ysgolion Catholig allu dangos y ffyrdd y mae cwricwlwm Addysg Grefyddol yr Eglwys Gatholig wedi'i gynllunio gan roi sylw i'r maes llafur y cytunwyd arno'n lleol.

Mae ffurf newydd ar Gyfeirlyfr y Cwricwlwm Addysg Grefyddol ar y gweill. Mae Cymdeithas Addysg yr Eglwys Gatholig ac ymarferwyr wedi cysylltu â'r tîm o awduron er mwyn sicrhau bod y Cyfeiriadur yn ystyried yr holl ofynion statudol ar gyfer ysgolion Cymru. Bydd canllawiau ychwanegol yn cael eu darparu ar gyfer ysgolion mewn rhaglen addysg broffesiynol dan arweiniad esgobaethol.

Mewn ysgol Gatholig yng Nghymru, llywodraethir Addysg Grefyddol gan Gyfeirlyfr Cwricwlwm Addysg Grefyddol Cynhadledd Esgobion Cymru a Lloegr. Cyflawnir ac asesir yr addysg yn ôl polisïau esgobaethol ac fe'u harchwilir o dan Fframwaith Arolygu Cenedlaethol yr Eglwys Gatholig yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.[8] Mae gofyn i ysgolion Catholig ddyrannu o leiaf 10% o amser y cwricwlwm i addysgu Addysg Grefyddol sydd bellach yn cael ei alw'n Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Mae'r cwricwlwm Addysg Grefyddol mewn ysgolion eglwysig yn cynnwys dysgu am amrywiaeth o grefyddau a bydolygon. Mae ysgolion Catholig yng Nghymru'n addysgu Addysg Grefyddol yn ôl yr hyn sy'n ofynnol gan eu Hesgobion yn unol â'u dogfen ymddiriedolaeth, gan hefyd gysylltu â gweddill y cwricwlwm.

Rydym yn byw mewn cymdeithas sy'n cynnwys amrywiaeth o fydolygon crefyddol ac anghrefyddol ac mae angen astudio'r rhain er mwyn paratoi ein pobl ifanc at fywyd yng Nghymru, y Deyrnas Unedig, a'r byd ehangach. Mae angen i'r dysgu hwn gael ei ategu gan barch at ein gilydd a phawb a goddefgarwch o safbwyntiau eraill. Mae dysgu am grefyddau a bydolygon ar wahân i Gatholigiaeth felly yn dod yn sgil parch dwfn at urddas dynol y sawl sy'n dal y safbwyntiau hyn.

O ganlyniad i hyn oll, gall yr egwyddor ganlynol lywio ein gwaith o ysgrifennu Canllawiau'r Cwricwlwm ar gyfer ysgolion Catholig:

- mynegi bydolwg Catholig yn glir
- dangos dealltwriaeth o fydolwg crefyddau eraill a pharch tuag at hyn
- dangos dealltwriaeth o fydolwg anghrefyddol a pharch tuag at hyn

4.3 Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)

Un o egwyddorion sylfaenol addysg Gatholig yw ffurfiant y person cyfan. Wrth addysgu dysgwyr mewn ysgolion Catholig, ystyriwyd ers tro bod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) sy'n briodol i ddatblygiad ac a gaiff ei addysgu'n dda, yn rhan bwysig o'r agwedd gyfannol hon. O ystyried pa mor hawdd y gall dysgwyr gael mynediad at dwyllwybodaeth a deunydd niweidiol, mae ACRh yn gyfrwng hanfodol i gadw dysgwyr yn ddiogel.

Mae ACRh yn elfen orfodol o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ac mae'n rhaid i gwricwlwm gyd-fynd â'r Cod ACRh.[9] Gan gydnabod mai rhieni a gofalwyr yw addysgwyr sylfaenol eu plant, rhaid i ysgolion

---

[7] Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Atodlen 1, paragraffau 4 &8; Cwricwlwm i Gymru- Crynodeb o'r ddeddfwriaeth, Llywodraeth Cymru, Hwb Cymru, https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/crynodeb-o-r-ddeddfwriaeth

[8] Deddf Addysg 2005, adran 50.

[9] Cwricwlwm i Gymru- Crynodeb o ddeddfwriaeth, Llywodraeth Cymru, Hwb Cymru, https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/crynodeb-o-r-ddeddfwriaeth

Catholig barhau i gydweithio'n agos â nhw. Mae gweledigaeth yr Eglwys o addysg hanfodol y person dynol trwy brosiect addysgol clir y mae Crist yn sylfaen iddo yn darparu'r templed i ddatblygu ACRh effeithiol mewn modd sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd mewn cymdeithas fodern, yn ogystal â'u haddysgu i werthfawrogi rhodd werthfawr bywyd dynol a'r urddas y mae Duw yn ei roi i bob person.[10]

Rhaid i ysgolion Catholig sicrhau bod dysgwyr yn cael cynnig rhaglen ACRh eang a chytbwys a gefnogir gan addysg rhinweddau sy'n rhoi gwybodaeth ffeithiol, wyddonol glir iddynt pan fo hynny'n berthnasol ac yn bodloni'r gofynion statudol a roddir ar ysgolion.

Mae gan y corff llywodraethol gyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a rhaid iddo sicrhau bod ysgolion yn ymdrechu i wneud y gorau i bob dysgwr, yn annibynnol ar anabledd, anghenion addysgol, hil, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, beichiogrwydd, mamolaeth, rhyw, ailbennu rhywedd, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol neu p'un a ydynt yn blant sy'n derbyn gofal.[11] Mae Canllawiau ar y Ddeddf Cydraddoldeb ar gyfer ysgolion Catholig i'w gweld ar wefan CES.[12]

Bydd ysgolion Catholig yn cadw at yr egwyddorion a nodir yng nghanllawiau a chod statudol ACRh. Yn ogystal, bydd y datganiadau isod ar ACRh effeithiol mewn ysgolion Catholig yn o gymorth i ysgolion Catholig wrth iddynt gynllunio eu cwricwlwm ACRh.

Mae ACRh Catholig effeithiol:

- yn ffyddlon i weledigaeth yr Eglwys o gyfanrwydd dynol
- yn cydnabod y cyd-destun cyfoes yr ydym yn byw ynddo heddiw
- yn cynnwys rhieni a gofalwyr gan mai nhw yw addysgwyr sylfaenol eu plentyn
- yn rhoi golwg gadarnhaol ar rywioldeb dynol ac urddas y person dynol
- yn arfogi dysgwyr â'r gallu i lunio barn dda am y peth cywir i'w wneud mewn amgylchiadau penodol
- yn archwilio ac yn hyrwyddo rhinweddau sy'n hanfodol i hybu parch ac urddas y person dynol
- yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n adlewyrchu datblygiad y dysgwr
- yn rhan o themâu trawsgwricwlaidd i ysgolion cynradd ac uwchradd
- yn sensitif i anghenion y dysgwr unigol ac yn cydnabod amrywiaeth y dysgwyr a'u hamgylchiadau teuluol
- yn cael ei addysgu gan weithwyr proffesiynol medrus sy'n deall dysgeidiaeth yr Eglwys

4.5 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

- Wrth ddiwygio'r Cwricwlwm yng Nghymru, mae rhan sylfaenol gan CCUHP i'w chwarae. Ymgorfforwyd y confensiwn yng Nghyfraith Ddomestig Cymru yn 2011, ac mae'r Datganiad yn nodi 42 o hawliau, sy'n canolbwyntio ar bedair o 'Egwyddorion Cyffredinol' (Erthyglau 2,3,6 a 12) ac a ddisgrifiwyd yn y testun yn y 54 o erthyglau sy'n rhan o'r testun (ynghyd â rhai 'Protocolau Dewisol' sy'n llywodraethu cymwysiadau ychwanegol, penodol). Dyma yw'r 'datganiad mwyaf cyflawn o hawliau plant a gynhyrchwyd erioed a dyma'r cytundeb hawliau dynol rhyngwladol a gadarnhawyd yn fwyaf eang erioed' (UNICEF).
- Mae pwysigrwydd CCUHP ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru hefyd yn ei gwneud hi'n hanfodol bod ysgolion yn ei ystyried wrth fynd ati i gynllunio, addasu a gweithredu eu cwricwlwm. Dylai ysgolion hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o Ran 1 o'r **Confensiwn** i'r rhai sy'n darparu dysgu ac addysgu.

[10] Relationship and sex education in Catholic Schools (Department of Catholic Education and Formation Catholic Bishops' Conference of England and Wales, Hydref 2020).
[11] Deddf Cydraddoldeb 2010, pennod1.
[12] https://www.catholiceducation.org.uk/schools, Equalities, Equality Act Guidance for Catholic Schools, 2014.